teithiau cerdded a rhyfeddodau cudd yn y parciau gwledig

Parc Gwledig Ystad y Gnoll: Castell-nedd

Saif Parc Gwledig Ystad y Gnoll mewn gardd dirluniedig hardd. Mae'n fan diddorol dros ben ble gallwch fwynhau'r cefn gwlad a darganfod rhai o'r gweithfeydd dŵr a adeiladwyd gan y teulu Mackworth yn y 18fed ganrif i gyflenwi pŵer i ddiwydiant lleol. Ceir nifer o deithiau cerdded byr o gwmpas yr Ystad ac mae gwybodaeth am y rhain ar gael yn y Ganolfan Ymwelwyr.

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Gorsaf Fysiau Castell-nedd (½ milltir/0.8 cilometr)

Parc Margam : Port Talbot

Saif Parc Gwledig Margam mewn 1000 o erwau o barcdir, ac mae'n cynnig harddwch, hanes, bywyd gwyllt ac amrediad eang o gyfleusterau a fydd yn plesio pawb. Gallwch weld llu o ryfeddodau cudd o fewn ei ffiniau, yn cynnwys gardd addurnol, Orendy o'r 18fed ganrif a gyr o hyddod brith. Ceir nifer o deithiau cerdded byr o gwmpas y Parc ac mae gwybodaeth am y rhain ar gael yn y Ganolfan Ymwelwyr.

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Parc Margam, Y Prif Gatiau (¼ milltir/0.4 cilometr)

Parc Gwledig Craig Gwladus (Castell-nedd)

Lleolir y parc hwn ar allt goediog gyda golygfeydd ysblennydd dros Gwm Nedd, ac mae ynddo nifer o lwybrau cerdded drwy'r goedwig yn cynnwys un sy'n dilyn yr hen dramffordd rhwng Cil-ffriw a Llangatwg; cerdded egnïol gyda llethr serth i lawr y rhiw, 2 filltir/3 chilometr.

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Cil-ffriw, March Hywel (cyfagos) dychwelyd o Langatwg, Green Dragon

CYRRAEDD Y PARCIAU GWLEDIG AR Y BWS
DIWRNODAU GWAITH: Bysiau uniongyrchol o Abertawe i Gastell-nedd ar gyfer Parc Gwledig y Gnoll (newid ar gyfer Craig Gwladus) a Margam. Bysiau uniongyrchol o Gastell-nedd i Fargam a Chraig Gwladus. Bysiau uniongyrchol o Bort Talbot i Gastell-nedd ar gyfer Parc Gwledig y Gnoll (newid ar gyfer Craig Gwladus) a Margam (o leiaf unwaith bob awr yn ystod y dydd)

DYDD SUL: Bysiau uniongyrchol o Abertawe i Gastell-nedd ar gyfer Parc Gwledig y Gnoll a Chraig Gwladus yn unig
Os oes angen cymorth arnoch i gynllunio'ch taith: ewch i: **www.travelinecymru.info 0871 200 22 33**

Aros yng Nghastell-nedd, Port Talbot a'r Cymoedd

Mae yna gymaint i'w wneud yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel y bydd angen mwy nag ymweliad diwrnod arnoch, yn enwedig os ydych yn byw mewn rhannau eraill o Gymru, y DU a thramor. Mae gan Gastell-nedd a Phort Talbot orsafoedd coetsis a threnau canolog gyda chysylltiadau â phob rhan o'r DU, gan gynnwys y prif feysydd awyr. Felly beth am gynllunio gwyliau cerdded neu ymweld heb gar, boed byr neu hir – fe gewch groeso cynnes a byddwch yn mwynhau lletygarwch Cymreig ar ei orau.

Fe gewch ddewis eang o lety, ym amrywio o fythynnod hunanarlwyo i westai cyffyrddus.

Am fanylion ar sut i fwcio:
Ffôn: **01639 636674**
E-bost: **aberdulaistic@nationaltrust.org**
Ewch i: **www.visitnpt.co.uk**

Eich Tocyn Teithio

Y tocyn rhataf am ddiwrnod o deithio diderfyn yng Nghastell-nedd, Port Talbot a'r Cymoedd yw'r First Day Castell-nedd Port Talbot; mae tocynnau wythnosol ar gael hefyd. Gallwch brynu'ch tocyn gan y gyrrwr ar eich taith gyntaf (yn ddilys ar wasanaethau bysiau First Cymru yn unig). Gall deiliaid Tocyn Mantais Bws Cymru deithio am ddim drwy'r dydd, a phob dydd.

Defnyddio Plus Bus
Os ydych yn cyrraedd ar y trên

Prynwch eich tocynnau trên a bws ar yr un pryd mewn unrhyw orsaf wedi'i staffio. Mae Plus Bus Port Talbot yn ddilys drwy'r holl ardal, yn cynnwys pob rhan o Barc Coedwig Afan. Mae Plus Bus Castell-nedd yn ddilys yng Nghastell-nedd ac yng Nghwm Nedd a Chwm Dulais.

BayTrans

Mae gwefan BayTrans yn cynnwys llu o wybodaeth ynghylch amserau bysiau, llefydd i ymweld â nhw, pethau i'w gwneud a theithiau cerdded y gellir eu llwytho i lawr.
Ewch i: www.baytrans.org.uk

Cynhyrchwyd y daflen hon gan BayTrans ac fe'i hariennir yn rhannol gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot.
Am fersiwn Cymraeg, llwythwch y pdf i lawr o'n gwefan (uchod).

teithiau cerdded, rhaeadrau a rhyfeddodau cudd



Yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r Cymoedd... heb gar!

2011 EDITION

tethiau cerdded, rhaeadrau a rhyfeddodau cudd

Mae ardal Castell-nedd Port Talbot a'i Chymoedd yn un o gyfrinachau anhysbys Cymru; ble bu olwynion pen pwll yn troi ac injans stêm yn pwffian gynt, yn awr ceir dyffrynnoedd swynol, afonydd disglair, coedwigoedd, llwybrau rheilffordd anghofiedig a llwybrau halio camlesi sy'n berffaith ar gyfer cerdded, seiclo a gwylio adar.

Gall y cerddwr brwd ddilyn y llwybrau mwy heriol ond i'r sawl sy'n llai egnïol, ceir llawer o deithiau cerdded gwastad, hawdd gyda golygfeydd hudolus, rhaeadrau neu nodweddion hanesyddol.

Mae pob cwr o'r ardal yn llawn o hanes. Hen bentrefi glofaol, sydd nawr yn hafanau gwledig, traciau drwy goedwigoedd a ddilynwyd gynt gan filwyr Rhufeinig, llynnoedd hardd. Ac mae yma wahanol fath ar dreftadaeth hefyd – dau abaty cain, ystadau â phlastai a pharciau gwledig, a phob un yn estyn yr un croeso i ymwelwyr.

Un o nodweddion mwyaf arbennig yr ardal hon yw nad oes angen car i lwyr fwynhau'r llecyn hardd hwn o Gymru. Mae rhwydwaith bysiau ardderchog, a llawer ohono'n gweithredu saith niwrnod yr wythnos, yn cysylltu Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot â'r Cymoedd ac mae'r amrediad o docynnau diwrnod rhad – ynghyd â theithio am ddim i ddeiliaid tocynnau mantais bws Cymru – yn golygu bod hyn yn rhatach na'r car ac yn cael effaith minimol ar yr amgylchedd.

mharc coedwig afan
teithiau cerdded a rhyfeddodau cudd

Llwybr Richard Burton: Pont-rhyd-y-fen i Gwmafan

Ganwyd yr actor byd enwog ym Mhont-rhyd-y-fen ac fe dreuliodd ei flynyddoedd cynnar yno hefyd; darganfyddwch rai o'r llefydd a oedd yn annwyl iddo ar hyd y llwybr tra hanesyddol hwn. Gan ddechrau yn Rhyslyn, byddwch yn croesi traphont (hen ddyfrbont), yn dilyn dau o hen gyfliniadau'r rheilffordd fwynau i gyfeiriad Tonmawr, ac yna'n disgyn i lawr i Gwmafan; cerdded cymedrol gyda grisiau ac arwynebau garw mewn mannau; 3 milltir/4.8 cilometr.

www.visitnpt.co.uk/richardburton
Taflenni yng nghanolfan ymwelwyr Parc Coedwig Afan neu yn y canolfannau croeso
Pont-rhyd-y-fen, Oakwood (Rhyslyn ¼ milltir) a Chanolfan Gymunedol Cwmafan (cyfagos)

Llwybrau o Ryslyn

Mae dau Lwybr yn dechrau ar faes parcio Rhyslyn.
Uchafbwynt Llwybr Penrhys yw'r olygfa ysblennydd dros Gwm Afan. Er bod y man cychwyn ar ffordd y goedwig ac ar yr un lefel â phen y bryn, mae tyle serth i gyrraedd y brig ac mae'r ffordd i lawr yn serth hefyd; cerdded cymedrol 3.5 milltir/5 cilometr. Mae Llwybr Rhyslyn yn fyrrach ac yn is i lawr ar ochr y mynydd ac mae'n wastad bron yr holl ffordd ar hyd llwybrau coetir a ffyrdd coedwig; cerdded cymedrol 2.5 milltir/4 cilometr.

www.forestry.gov.uk/afanforestpark
Taflenni ar gael yn y canolfannau croeso
Pont-rhyd-y-fen, Oakwood (Rhyslyn ¼ milltir)

Llwybrau Canolfan Ymwelwyr Coedwig Afan

Ceir dau lwybr sy'n dechrau yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan.
Mae Llwybr yr Afon a'r Rheilffordd yn eich tywys ar hyd llwybr gwastad Rheilffordd Fwynau De Cymru ar hyd glannau Afon Afan, gan ddychwelyd ar hyd ffordd drwy'r goedwig; ceir tyle byr, serth at ffordd y goedwig ym mhen pellaf y llwybr. Cerdded cymedrol 3 milltir/4.8 cilometr.



CYRRAEDD PARC COEDWIG AFAN AR Y BWS
DIWRNODAU GWAITH: O Abertawe (newid bysiau ym Mhort Talbot); o Gastell-nedd a Phort Talbot yn syth i Barc Coedwig Afan (bob awr yn ystod y dydd)

DYDD SUL: O Abertawe (newid bysiau yng Nghastell-nedd); o Gastell-nedd yn syth i Barc Coedwig Afan (bob awr yn ystod y dydd)
Os oes angen cymorth arnoch i gynllunio'ch taith: ewch i **www.travelinecymru.info 0871 200 22 33**

Mae Taith Gerdded Coetir Afan yn cynnwys tyle graddol drwy'r goedwig gyda golygfa hardd dros Gwm Afan, gan ddychwelyd heibio i adfeilion hynafol, niferus Fferm Argoed; gellir gweld llawer o wahanol adar yno. Cerdded cymedrol 1.5 milltir/2.4 cilometr.

www.forestry.gov.uk/afanforestpark
Taflenni ar gael yn y canolfannau croeso
Canolfan Parc Coedwig Afan (cyfagos)

Llwybr Rheilffordd Blaengwynfi

Dilynwch gyfliniad hen reilffordd Rhondda a Bae Abertawe o safle gorsaf Blaengwynfi ar hyd y glyn coediog, hardd at hen orsaf Cymer Afan, ble mae'r adeilad gorsaf yn dwyn y teitl 'Refreshment Rooms' o hyd. Cerdded gwastad, hawdd; 2¼ filltir/3.5 cilometr, neilltuwch 1½ awr.

Cyfeiriwch at y Map OS Explorer 166 rhwng y cyfeirnodau grid 888967 a 861962
Terfynfa Blaengwynfi (cyfagos) a Chanolfan Hamdden Y Cymer (cyfagos).

Taith Gerdded Cefnffordd Glyncorrwg

Mae hon yn un o gyfres o deithiau cerdded yn y cwm a noddir gan Ganolfan Ymwelwyr Pyllau Glyncorrwg. Gan ddechrau ar hyd tyle serth drwy goedwig larwydd, cyn pen dim bydd gennych olygfeydd hardd dros Gwm Afan cyn disgyn i lawr at y pentref a dilyn hen gyfliniad rheilffordd fwynau nôl at y Ganolfan Ymwelwyr. Cerdded cymedrol/egnïol; 3½ milltir/5 cilometr, neilltuwch 2 awr. Gallwch barhau i gerdded ar hyd hen lwybr y rheilffordd nes byddwch yn cyrraedd y Cymer; cerdded gwastad, hawdd 3 milltir/4.8 cilometr, neilltuwch 1½ awr.

www.afanforestpark.co.uk
Taflenni ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr Pyllau Glyncorrwg
GlyGlyncorrwg, Stryd y Bont (Canolfan Ymwelwyr y Pyllau ¼ milltir)

Rhyfeddod Cudd Afan: Gardd Goed Kanji

Os dilynwch y llwybr byr ¾ milltir/1.2 cilometr o arhosfan bysiau Oakwood, byddwch yn cyrraedd ardal goedwigol gyfareddol ble gwelwch lythrennau Kanji sy'n symbolau o'r cwlwm agosrwydd rhwng hon a 'Choedwig Afan' arall yn Japan; crëwyd hon gan frodor o Gastell-nedd sydd nawr yn ddinesydd Japaneaidd, ac mae'n lloches o heddwch a llonyddwch.

Taflenni ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr Coedwig Afan
Pont-rhyd-y-fen, Oakwood

teithiau Cerdded a **rhaeadrau** yn y Cymoedd

Rhaeadr Melincwrt

Saif y rhaeadr fawreddog 80 troedfedd hon nepell o'r brif ffordd ym Melincwrt, ac mae'r llwybr ati'n mynd drwy un o goetiroedd mwyaf amrywiol Cwm Nedd; byddwch yn cerdded drwy goetir llydanddail o dderw, bedw, ceirios du, criafol a gwern; ac fe welir ugain rhywogaeth o redyn yn ei hawyrgylch llaith. Cerdded cymedrol, ½ milltir/0.8 cilometr

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Rhaeadr Melincwrt (cyfagos)

Scwd Gwladus, Pontneddfechan

Bydd eich taith gerdded yn dechrau yn nherfynfa fysiau Pontwalby (ac eithrio dydd Sul pan fydd y bws yn mynd i Bontneddfechan). Mae'r filltir/1.6 cilometr cyntaf, yn daith ddymunol ar hyd glannau Afon Nedd at y pentref. Yna ceir llwybr 1¼ filltir/2 gilometr ar hyd ceunant llednant Nedd Fechan at gydlifiad yr Afon Pyrddin. Oddi yma, mae'n daith fer i raeadr hardd Scwd Gwladus (Rhaeadr y Foneddiges). Cerdded hawdd i gymedrol, neilltuwch 1¼ awr bob ffordd (45 munud bob ffordd o Bontneddfechan).

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Pont Pontwalby, diwrnodau gwaith; Pontneddfechan, Angel Inn (Dydd Sul)

Teithiau Cerdded Camlas Castell-nedd

Y ffordd orau o bell ffordd i werthfawrogi swyn tawel Cwm Nedd yw trwy gerdded ar hyd llwybrau halio Camlas Castell-nedd. Mae'r daith gerdded o'r Clun i Raeadr Aberdulais yn dro hyfryd ar hyd llwybr halio coediog Camlas Castell-nedd at y cyrchfan cyfareddol yn Aberdulais gyda'i fasn camlas (ble cawsai nwyddau eu trawsgludo gynt i Gamlas Tennant) a'r bont gam unigryw. Oddi yma, mae'n dro byr i Ganolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Rhaeadr Aberdulais a'r ystafell de gyfagos. Cerdded gwastad, hawdd ar hyd llwybrau halio'r gamlas; 2¼ filltir, 3.5 cilometr, neilltuwch 1½ awr

www.baytrans.org.uk/nptwalks07_neathcanal.html
Cyfeiriwch at y Map OS Explorer 165 rhwng y cyfeirnodau grid 800007 a 773994
Y Clun, Teras Cyd (cyfagos) dychwelyd o Raeadr Aberdulais

Resolfen i Bentreclwydau ar hyd blaenau uchaf Camlas Castell-nedd ble gallwch fwynhau taith gerdded ddymunol gydag ochr Ystad Rheola a golygfeydd gwych i fyny ac i lawr cwm hardd Afon Nedd. Cerdded gwastad, hawdd, ar hyd llwybrau halio'r gamlas; 5 milltir, 8 cilometr yno a nôl, neilltuwch 2½ awr

www.baytrans.org.uk/nptwalks08_neathcanal2.html
Cyfeiriwch at y Map OS Explorer 166 rhwng y cyfeirnodau grid 826032 a 862055
Resolfen, Stryd John (2 funud ar gerdded)

Taith Gerdded Camlas Abertawe: Pontardawe i Odre'r Graig

Mae Cwm Tawe ar ei fwyaf hardd a llonydd ar hyd y gamlas hon, ymhell oddi wrth y brif ffordd drwy'r dyffryn. Mae'r gamlas ym meddiant Dyfrffyrdd Prydain ar ran gyntaf y llwybr; o Ynysmeudwy ymlaen, mae'n rhan o warchodfa natur linol a reolir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Cerdded gwastad, hawdd; 5 milltir/8 cilometr yno a nôl, neilltuwch 2 awr

www.baytrans.org.uk/nptwalks10_swanseacanal.html
Cyfeiriwch at y Map OS Explorer 165 rhwng y cyfeirnodau grid 722040 a 752065
Pontardawe, Jiwbilî (5 munud ar gerdded)

Taith Gerdded Cwm Dyffryn: Goytre i'r Bryn

Nepell o ffair a ffwndwr Port Talbot ceir taith gerdded wastad, tra dymunol drwy gwm coediog, dwfn ac yna ar hyd llain byr o gefn gwlad agored gyda golygfeydd dros y mynyddoedd. Cerdded gwastad, hawdd ar isffyrdd neu draciau, 3½ milltir/5.5 cilometr, neilltuwch 2 awr

www.baytrans.org.uk/nptwalk_01goytre
Cyfeiriwch at y Map OS Explorer 165 rhwng y cyfeirnodau grid 787897 a 818920
Terfynfa Goytre (cyfagos) dychwelyd o'r Bryn, Royal Oak



teithiau Cerdded a **rhyfeddodau cudd** yn y Cymoedd

Glyn Cwm Du, Pontardawe

Mae'r daith gerdded hon ynghudd oddi wrth ganol y dref, ond eto'n agos iawn ato, ac mae ei dyfnant ddofn, goediog a'i rhaeadrau byrlymol yn hollol gyfareddol. Gall y daith hon fod yn eithaf gwlyb dan droed ac mae'r llwybr yn serth mewn rhai mannau. Hyd at 2½ filltir/4 cilometr, hawdd i gymedrol ar hyd llwybrau troed ac isffyrdd gyda llethr byr i fyny ac i lawr; neilltuwch 1½ awr yn dibynnu ar y llwybr a ddewiswch.

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Pontardawe, Jiwbilî (5-10 munud ar gerdded)

Amgueddfa Glofa Cefn Coed

Mae'r amgueddfa'n adrodd hanes codi glo ym mhwll Cefn Coed, sef y pwll glo carreg dyfnaf yn y byd ar un adeg. Roedd hwn yn un o'r pyllau mwyaf peryglus yng Nghymru, gan ennill y llysenw 'Y Lladd-dy' iddo'i hun. Adroddir hanes y miloedd o ddynion a weithiai yng Nghefn Coed a phyllau eraill yng nglofeydd glo carreg De-Orllewin Cymru drwy eiriau, lluniau ac arteffactau yn yr amgueddfa hon.

www.visitnpt.co.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Cefn Coed (cyfagos)

Llwybr Treftadaeth Cwm Dulais

Yn amrywio o Rufeiniaid a saint Celtaidd i ffermwyr a glowyr, mae gan Gwm Dulais dreftadaeth gyfoethog ac amryfal. Dethlir hon drwy dri llwybr cyfareddol ar hyd y cwm, a phob un yn hawdd ei gyrraedd ar y bws, gyda gwybodaeth ddeongliadol yn cael ei rhoi mewn arosfannau bysiau dethol. Gellir dilyn llwybrau pentref yng Nghreunant, Blaendulais a Banwen/Onllwyn sy'n rhoi cipolwg cyfareddol ar hanes a chymeriad y pentrefi hyn. Mae taflen Llwybr Treftadaeth ar gael yn y canolfannau croeso neu drwy ei llwytho i lawr o www.dulaisvalley.org.uk/heritagetrail

www.dulaisvalley.org.uk
Taflen ar gael yn y ganolfan croeso
Mae arosfannau bysiau yn agos at bob llwybr

Safle Treftadaeth Ddiwydiannol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Rhaeadr Aberdulais

Lleolir y safle hwn mewn ceunant serth; byddwch yn rhyfeddu at rym dŵr a'i effaith ar ddiwydiant. Y diwydiant olaf ar y safle hwn oedd gwaith tun cynnar a bwerwyd gan ddŵr; heddiw mae'r olwyn ddŵr yn defnyddio dyfroedd Afon Dulais i gadw Aberdulais yn hunangynhaliol mewn ynni sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd – yr olwyn ddŵr fwyaf yn Ewrop sy'n cynhyrchu trydan.

www.nationaltrust.org.uk
Taflen ar gael yn y canolfannau croeso
Rhaeadr Aberdulais (cyfagos)

Basn Camlas Aberdulais

Archaeoleg ddiwydiannol ar ei gorau; cewch weld yr hen fan trawsgludo nwyddau rhwng Camlas Castell-nedd (o Gwm Nedd) a Chamlas Tennant (ac ymlaen i Abertawe). Un o'r nodweddion hanesyddol yw'r bont gam a oedd yn caniatáu i fadau camlas a dynnwyd gan geffylau fynd yn eu blaen yn ddirwystr dros gyffordd y gamlas.

www.neath-tennant-canals.org.uk
Taflen ar gael yn y ganolfan croeso
Rhaeadr Aberdulais (5-10 munud ar gerdded)

CYRRAEDD TEITHIAU CERDDED A RHYFEDDODAU CUDD Y CYMOEDD AR Y BWS

DIWRNODAU GWAITH: Bysiau uniongyrchol o Abertawe a Chastell-nedd at yr holl deithiau cerdded; o Bort Talbot, newidiwch yng Nghastell-nedd am deithiau cerdded Castell-nedd a Chwm Tawe (o leiaf unwaith bob awr yn ystod y dydd).

DYDD SUL: O Abertawe a Chastell-nedd i Gwm Nedd a Chymoedd Tawe yn unig.

Os oes angen cymorth arnoch i gynllunio'ch taith ewch i: **www.travelinecymru.info** neu ffoniwch: **0871 200 22 33**

Photos courtesy of Neath Port Talbot County Borough Council, Colin Speekman and BayTrans.